# Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) (2022-2037)

## Papur Cefndir:
## Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol

## Mai 2023

## Crynodeb Gweithredol

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*
*This document is available in English*

### Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddir y Papur Cefndir hwn i oleuo'r rheiny sy'n ystyried cynnig safleoedd posibl, cyn yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer y CDLlN. Dyma ddogfennau defnyddiol ychwanegol sydd gan y Cyngor:

- Meini prawf asesu / methodoleg yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (h.y. Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig / Matrics Sgorio) ar gyfer Asesu Safleoedd Ymgeisiol
- Nodyn Canllaw Hyfywedd Ariannol (Mai 2023)
- Gwerthuso Anheddiad Cynaliadwy (Mai 2023)
- Nodyn Canllaw Arolwg Ecolegol (Tachwedd 2020)
- Nodyn Canllaw LANDMAP (Mai 2023)
- Canllawiau Cynllunio Atodol Dylunio Safle, Uwchgynllunio a Briff Datblygu (mabwysiadwyd ym mis Chwefror 2023)
- Canllawiau Cynllunio Atodol Lleoliadau Cynaliadwy (Drafft Ymgynghorol Chwefror 2023)
- Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig (mabwysiadwyd Chwefror 2023)
- Galwad am Safleoedd Ymgeisiol: Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyflwyno Safle

### Y Broses ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol

1.2 Bydd y Cyngor yn cynnal 8 wythnos o Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, a rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cyfnod hwn yn unol â'r Strategaeth Cynnwys y Gymuned. OpusConsult fydd yn hwyluso'r broses. Gwahoddir y rheiny sydd â diddordeb mewn cyflwyno tir i'w ystyried ar gyfer y CDLlN, i gyflwyno safleoedd, a hynny naill ai ar gyfer eu datblygu, eu hailddatblygu neu eu gwarchod rhag datblygiad. Mae'r defnydd posibl ar gyfer y tir yn cynnwys tai, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol, twristiaeth, seilwaith gwyrdd, gwastraff, iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, manwerthu, hamdden, ynni adnewyddadwy, bioamrywiaeth, seilwaith trafnidiaeth a mwynau.

1.3 Y trothwy ar gyfer cyflwyno datblygiad preswyl yw naill ai 10 anheddiad neu safle o 0.33ha, o leiaf. Bydd safleoedd preswyl llai yn cael eu hystyried trwy adolygiad ffiniau aneddiadau'r CDLlN. Nid oes trothwy lleiaf ar gyfer unrhyw dir arall a gyflwynir. Bydd gofyn ailgyflwyno safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd yn flaenorol (2018 neu 2020/21) a safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd ond sydd heb ganiatâd cynllunio. Bydd y Cyngor yn cynnal o leiaf un gweithdy, er mwyn cynorthwyo perchnogion tir / datblygwyr a'r gymuned ehangach gyda'r gwaith o gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Byddwn hefyd yn cynnig gwasanaeth cyflwyno safleoedd opsiynol am ffi (ar sail y gost).

1.4 Bydd Nodyn Canllaw Cyflwyno Safleoedd ar gyfer y Galwad i Gyflwyno Safleoedd yn nodi'r wybodaeth ategol y bydd gofyn ei chyflwyno. Rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys asesiad hyfywedd Cam 1 (gweler y Nodyn Canllaw Hyfywedd Ariannol ar wahân (Mai 2023)). Os nad oes gwybodaeth ddigonol i ddangos cyflawnadwyedd y safle (gan gynnwys hyfywedd ariannol) yna mae hynny'n rheswm dilys dros wrthod safle o Gam 1 yn y broses asesu.

1.5 Cyhoeddir 'Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol' sy'n rhestru'r holl safleoedd a gyflwynwyd, yn dilyn yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol. **Mae'n bwysig nodi na ddylid rhagdybio bod cynnwys safle ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn golygu y bydd y safle hwnnw'n cael ei ddatblygu, neu y bydd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, nac ychwaith fod y Cyngor o'r farn y dylid ei ddatblygu.**

1.6 Bydd Ail Alwad am Safleoedd yn derbyn safleoedd newydd ac yn gyfle i'r rheiny sydd eisoes wedi cynnig safleoedd i gyflwyno tystiolaeth ategol ychwanegol er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion sydd heb eu hateb. Bydd gofyn cynnal asesiad hyfywedd Cam 2 ac arolygon ecolegol, ar yr adeg hon hefyd. Ni ddisgwylir y bydd y Cyngor yn derbyn unrhyw Safleoedd Ymgeisiol newydd wedi i'r Ail Alwad am Safleoedd gau.

1.7 Bydd y Cyngor yn ceisio dyrannu safleoedd sy'n cadw at ganllawiau cynllunio cenedlaethol fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) 11 a'r Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) h.y.

- mae'n annhebygol y derbynnir datblygiad newydd mewn ardal wledig agored, i ffwrdd oddi wrth aneddiadau sefydledig;
- ni fydd safleoedd sy'n ddarostyngedig i ddynodiadau rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth yn dderbyniol; a
- ni fydd cynigion ar gyfer datblygiad sy'n agored iawn i niwed (sy'n cynnwys tai, adeiladau cyhoeddus a gwasanaethau brys) yn yr ardaloedd uchaf eu risg ar orlifdir yn dderbyniol.


1.8 Dilynir trefn chwilio safleoedd PCC11, gan flaenoriaethu tir a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd) a/neu safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol mewn aneddiadau yn y lle cyntaf; yna safleoedd maes glas addas a chynaliadwy o fewn aneddiadau neu ar eu hymylon. Lle nad oes digon o safleoedd tir llwyd cyflawnadwy ar gael i fodloni gofynion y dyfodol, bydd gofyn i'r Cyngor ystyried rhyddhau safleoedd maes glas ar ymylon aneddiadau.

1.9 I grynhoi, dyma'r paramedrau eang lle mae yna botensial y gallai safleoedd fod yn dderbyniol:

- lle bônt â ffocws ar yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy a nodwyd yng Ngwerthusiad Aneddiadau Cynaliadwy'r Cyngor;
- lle bônt yn cydymffurfio â'r drefn chwilio safleoedd a gyflwynir yn PCC11;
- lle byddent yn cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at y Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol (PCC11); a
- lle bo ffocws ar leihau'r angen i deithio yn unol â'r Hierarchiaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy (PCC11).

2.9 Yn Ffigur 1 isod ceir trosolwg o'r broses ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol. Mae'r bocsys glas yn cynrychioli cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd:

**Ffigur 1: Trosolwg o'r Broses ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol**



## Methodoleg Cam 1: Trosolwg Lefel Uchel o Gynaliadwyedd, Cyfyngiadau a Chyflawnadwyedd

1.10 Yn unol â Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (2020), mae Asesiad Cam 1 y Cyngor yn cynnwys trosolwg lefel uchel o ffeithiau allweddol, cynaliadwyedd lleoliad, cyfyngiadau amgylcheddol a ffisegol ac unrhyw faterion sy'n wybyddus ynghylch cyflawnadwyedd neu hyfywedd, wedi eu crynhoi mewn tabl.

1.11 Os bydd hyrwyddwr safle yn gwybod am gyfyngiad o bwys (e.e. mae rhan o'r safle o fewn y gorlifdir, neu mae gan y safle werth ecolegol, neu mae o fewn ardal lofaol risg uchel) yna byddai cyflwyno gwybodaeth ynghylch y cyfyngiad hwn wrth gyflwyno'r safle, yn fuddiol i hyrwyddwr y safle. Rhaid bod safleoedd sydd wedi eu cynnwys yn y CDLlN yn realistig, yn addas ac wedi'u seilio ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy, ac felly po fwyaf o wybodaeth y gellir ei chyflwyno i ddangos bod safle'n addas, y mwyaf tebygol fod y safle'n cael ei gynnwys.

1.12 Lle na chyflwynwyd digon o wybodaeth, gallai'r Cyngor ofyn am wybodaeth ychwanegol, er enghraifft arolygon ecolegol, arolygon coedyddiaeth, asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd, astudiaethau draenio, asesiadau o risgiau sy'n gysylltiedig â phyllau glo, asesiadau effaith traffig, asesiadau effaith ansawdd aer ac unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn ofynnol er mwyn dangos bod safle yn gyflawnadwy. Hyrwyddwr y safle sy'n gyfrifol am wneud gwaith technegol perthnasol i gefnogi'r broses o gynnwys safle yn y cynllun ac am unrhyw gostau ariannol.

1.13 Bydd casgliad Cam 1 pob safle yn nodi'n glir a ddylai'r safle fynd ymlaen at y Cam nesaf yn y broses asesu ai peidio, ac yn nodi'r rhesymau a / neu'r cyfiawnhad a'r polisi cynllunio cenedlaethol / canllawiau perthnasol lle bo hynny'n briodol.

## 4. Methodoleg Cam 2A: Asesiad Cynllunio Cynhwysfawr

4.1 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (2020) yn nodi'r angen am fethodoleg asesu gynhwysfawr a systematig ar gyfer pob safle sy'n dod trwy broses ffiltro Cam 1. Mae Tabl 5 yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 yn nodi cyfres o feini prawf eglurhaol ar gyfer asesu safle, o dan nifer o benawdau, yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd a geir yn PCC11.

4.2 Fel y cyfryw, mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres o 44 o gwestiynau sy'n cynnwys meysydd testun allweddol wedi eu rhannu rhwng ffocysau deublyg 'cynaliadwyedd' a 'chyflawnadwyedd', gweler Ffigur 2 isod. Mae'r cwestiynau'n cwmpasu amrywiaeth eang o faterion cynaliadwyedd o dan benawdau Lleoliad a hygyrchedd; Cyd-destun a chymeriad y safle; Hygyrchedd a chapasiti priffyrdd; Tirwedd ac effaith amgylcheddol. Cyflwynir yr agweddau Cyflawnadwyedd o dan benawdau Perygl llifogydd; Ardaloedd Diogelu Mwynau/Parthau Clustogi; Capasiti seilwaith; Cyflawni a hyfywedd. Mae pennawd terfynol yn ymwneud â Chyd-destun Cynllunio safle o ran unrhyw ddynodiad blaenorol mewn cynllun datblygu a / neu unrhyw geisiadau cynllunio hanesyddol perthnasol.

4.3 Bydd y rheiny yr ymgynghorir â nhw yn fewnol ynghlwm â'r gwaith o gwblhau'r asesiad hwn, yn ôl yr angen. Bydd y casgliad yn ceisio adnabod y materion a godwyd yn yr asesiad gyda chyfeiriad penodol at gynaliadwyedd a chyflawnadwyedd. Bydd yn nodi a ddylid ystyried y Safle Ymgeisiol ymhellach o fewn y broses asesu ai peidio. Bydd rhesymau a / neu gyflawnhad, sy'n

nodi polisi cynllunio cenedlaethol / canllawiau perthnasol, yn cael eu cynnwys lle bônt yn berthnasol.

**Ffigur 2: Rhestr o Gwestiynau Asesiad Cam 2A:**

| | |
|---|---|
| 1. | Sut y mae'r safle'n gysylltiedig â ffurf yr anheddiad sy'n bodoli a sut y mae'n integreiddio â hi?<br>a) O fewn yr anheddiad sy'n bodoli<br>b) Cwblhau'r anheddiad<br>c) Ar ymyl yr Anheddiad<br>d) Tu allan i'r anheddiad / ardal wledig agored |
| 2. | A all y safle roi mynediad ar droed i gyfuniad ehangach o wasanaethau / cyfleusterau allweddol yn y gymuned yn unol â'r canllawiau a sefydlwyd gan Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant (2015)?<br>*mesurir pellteroedd ar hyd troedffyrdd / llwybrau troed o bwynt pellaf y safle |
| 3. | A allai ysgolion y dalgylch gynnig y llefydd ychwanegol mewn ysgolion sy'n debygol o fod yn angenrheidiol yn ganlyniad i ddatblygiad y safle? |
| 4. | A ydy'r cynnig yn arwain at golli mannau agored cyhoeddus / cyfleusterau hamdden / cyfleusterau cymunedol? |
| 5. | A oes Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol yn rhan o'r safle (fel y diffinnir yn PCC 11 tud. 37)? |
| 6. | A ydy defnydd arfaethedig y tir yn gydnaws â defnydd cyfagos? |
| 7. | A oes unrhyw gyfyngiadau ffisegol gwybyddus ar y safle, er enghraifft Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ceblau pŵer, topograffeg, perthi, coetir neu Orchmynion Cadw Coed? |
| 8. | A oes unrhyw ddisgwyliad rhesymol y gallai'r safle fod wedi'i halogi? |
| 9. | A ydy'r safle'n amlwg yn weledol yn ei gyd-destun i'r graddau y gallai achosi cyfyngiad posibl ar ddatblygiad? |
| 10. | A ydy'r safle'n hygyrch o'r rhwydwaith priffyrdd cyhoeddus (sydd wedi eu mabwysiadu) sy'n bodoli ar hyn o bryd? |
| 11. | A all y safle ddarparu mynediad diogel at Lwybr Teithio Llesol? |
| 12. | A oes modd i gysylltiad cludiant cyhoeddus wasanaethu'r safle cyfan h.y. safle bysiau neu orsaf drenau, o fewn y pellter cerdded uchaf a ffefrir, sef 800m, fel y nodir gan Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant (2015)? |
| 13. | A ydy'r cludiant cyhoeddus agosaf at y safle yn darparu gwasanaeth sy'n ddigon aml i fod yn dderbyniol (o leiaf un gwasanaeth yr awr o 7am i 7pm, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a gwasanaeth ar ddydd Sul) a dewis o gyrchfannau sy'n golygu bod opsiwn realistig arall ar gael yn hytrach na theithio mewn car? |
| 14. | Lle nad oes cysylltiad cludiant cyhoeddus derbyniol i wasanaethu'r safle (o ran agosrwydd, amlder neu ddewis o gyrchfannau), a ydyw'n ddigon o faint i allu cynnal gwasanaeth masnachol i gefnogi'r datblygiad? |
| 15. | A ydy'r rhwydwaith priffyrdd sy'n bodoli ar hyn o bryd yn gallu cymryd y traffig a'r symudiadau teithio sy'n gysylltiedig â datblygiad y safle? |
| 16. | A oes modd darparu mynediad boddhaol ar briffyrdd i wasanaethu'r safle, gan gynnwys darparu digon o leiniau gweledededd? |
| 17. | A oes dynodiad tirwedd ar y safle a fyddai'n effeithio ar ddatblygiad arfaethedig y safle?<br>(Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol, Ardal Gadwraeth neu Barc a Gerddi Cofrestredig) |
| 18. | A werthfawrogir y safle'n benodol am ei gyfraniad at y dirwedd ehangach, ac os felly i ba raddau? |
| 19. | A oes dynodiad ecolegol neu fioamrywiaeth ar y safle a fyddai'n effeithio ar ddatblygiad arfaethedig y safle? |

| | |
|---|---|
| | (Gwarchodfa Natur Leol, Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, Coetir Lled-Naturiol Hynafol) |
| 20. | A oes cofnod o Gynefinoedd Adran 7, Rhywogaethau a Warchodir / Rhywogaethau neu Gynefinoedd â Blaenoriaeth yng Nghymru neu Rywogaethau neu Gynefinoedd sydd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Torfaen ar y safle? |
| 21. | A ydy'r safle yn addas i gefnogi rhywogaethau neu gynefinoedd a warchodir (hyd yn oed os nad oes rhywogaethau a / neu gynefinoedd o'r fath ar y safle ar hyn o bryd)? |
| 22. | A ydy'r safle o bwysigrwydd strategol fel Coridor Bywyd Gwyllt neu gynefin sy'n garreg camu? |
| 23. | A wnaethpwyd Asesiad Seilwaith Gwyrdd ar y safle? A ydyw'n cyflwyno cyfyngiadau ar gyfer y datblygiad arfaethedig neu gyfleoedd ar gyfer mannau gwyrdd amlddefnydd a mesurau i liniaru neu addasu ar gyfer effeithiau newid hinsawdd? |
| 24. | A oes tir amaethyddol Gradd 1, 2 neu 3a ar y safle (h.y. Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas)? |
| 25. | A oes Adeilad Rhestredig neu Heneb Hynafol Restredig ar y safle neu a ydyw mewn safle o'r fath neu'n agos at safle o'r fath, lle gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar ei werth neu ei leoliad? |
| 26. | A fyddai datblygu'r safle yn cael effaith negyddol sylweddol ar ansawdd yr aer neu ar unrhyw ardal rheoli ansawdd aer bosibl yn yr ardal leol? |
| 27. | A fyddai datblygu'r safle yn cael effaith negyddol sylweddol ar seinwedd ardal neu unrhyw ardal rheoli sŵn yn yr ardal leol? A fyddai'r datblygiad arfaethedig yn derbyn unrhyw sŵn annerbyniol? |
| 28. | Lle bo safle neu fynediad wedi'i leoli'n llwyr neu'n rhannol mewn ardal lle mae Perygl Llifogydd (TAN 15 Parth a Amddiffynnir, Parth 2 neu Barth 3 ar gyfer dŵr wyneb / cyrsiau dŵr arferol a /neu lifogydd o afonydd neu o'r môr) a nodir yn y Nodyn Cyngor Technegol TAN15 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio diweddaraf a gyhoeddwyd (o fis Mehefin 2023), a ydy'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a gyflwynwyd yn rhoi sylw digonol i'r mater er mwyn i'r safle allu cael ei ddatblygu yn y modd a gynigiwyd? |
| 29. | A oes unrhyw adnoddau agregiadau Categori 1 neu 2 ar y safle? A ydy'r safle mewn unrhyw ardaloedd diogelu mwynhau sy'n bodoli neu unrhyw barthau clustogi? |
| 30. | A ydy'r safle mewn 'Ardal Ddatblygu Risg Uchel' mewn perthynas â hen waith glo a mynedfeydd i bwll glo? |
| 31. | A ydy'r safle'n agos at seilwaith cyfleustodau sy'n bodoli a fyddai'n gallu gwasanaethu'r datblygiad arfaethedig? |
| 32. | A ydy'r safle mewn ardal lle mae yna gyfle i gyfrannu at gynhyrchu ynni digarbon neu garbon sero fel y nodir yng Nghynllun Cyfleoedd Ynni CBST a luniwyd yn rhan o Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel y Cyngor (Carbon Trust, 2020)? |
| 33. | A ydy'r cais a gyflwynwyd ar gyfer y safle yn dangos y bwriad i fynd ar drywydd datgarboneiddio'r amgylchedd adeiledig trwy ddylunio adeiladau mewn ffordd gynaliadwy a defnyddio mesurau i leihau ynni, yn unol â'r Hierarchaeth Ynni ar gyfer Cynllunio a gyflwynir yn PCC11? |
| 34. | A oes unrhyw gyfamodau sy'n cyfyngu ar y defnydd o'r tir/adeiladau ar y safle arfaethedig? |
| 35. | A ydy'r safle (gan gynnwys gofynion mynediad a lleiniau gwelededd) ym mherchnogaeth y sawl sy'n cynnig y safle, yn gyfan gwbl? |
| 36. | Os nad ydyw, a ydy'r holl berchnogion tir yn cytuno â defnydd tir arfaethedig y safle ymgeisiol? |
| 37. | A oes unrhyw gyfyngiadau economaidd / elfennau annormal ynghylch y datblygiad, a fyddai'n effeithio ar ddatblygiad y safle o fewn cyfnod y cynllun, 2022-2037? |

| | |
|---|---|
| 38. | A ydy perchennog y tir / y sawl sy'n cynnig y safle wedi ymgysylltu â / ymgymryd ag unrhyw drafodaethau gyda datblygwr/datblygwyr posibl? |
| 39. | A gyflwynwyd asesiad hyfywedd derbyniol ar gyfer y Safle Ymgeisiol? |
| 40. | A ddynodwyd y safle hwn yn y CDLl yn barod neu a ydyw wedi cael ei ystyried yn rhan o broses Asesu Safle Ymgeisiol flaenorol? |
| 41. | A fu unrhyw geisiadau cynllunio blaenorol perthnasol yn ymwneud â rhan o'r safle neu'r safle cyfan? |
| 42. | A oes unrhyw safleoedd eraill â chaniatâd heb ei weithredu neu safleoedd datblygu ymgeisiol eraill ar gyfer y CDLlN yn yr ardal sy'n golygu y gallai fod effaith gronnus ar yr ardal gyfagos o'u hystyried gyda'r safle hwn? |
| 43. | A oes unrhyw astudiaethau / arolygon neu wybodaeth ychwanegol y mae angen eu darparu er mwyn goleuo ystyriaeth bellach o'r safle yn mhroses y CDLlN?<br>Sylwer: Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen. |
| 44. | A oes unrhyw astudiaethau / arolygon neu wybodaeth ychwanegol y byddai angen eu cyflwyno law yn llaw â chais cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig?<br>Sylwer: Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen. |

## 5. Methodoleg Cam 2B (Themâu ac Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig): Asesu Safleoedd Ymgeisiol yn erbyn Themâu / Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a'r Matrics Sgorio

5.1 Cyflwynir y gofyniad i Safleoedd Ymgeisiol gael eu hasesu yn erbyn amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yn glir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (2020). Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r Papur Cefndir hwn, bydd y Safleoedd Ymgeisiol yn cael eu hasesu yn rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a wneir gan AECOM ar ran y Cyngor.

## 6. Methodoleg Cam 2C: Ymchwiliadau Pellach i'r Safle ac Ymgynghori'n Allanol

6.1 Ceir cyfeiriad penodol at Ymgynghori â chyrff allanol a rhanddeiliaid allweddol ynghylch Safleoedd Ymgeisiol, yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (2020) ac mae'n rhan o Gam 2C ym methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor. Dim ond safleoedd sydd wedi symud ymlaen trwy'r broses asesu hyd yn hyn ddylai fod yn destun i'r ymgynghoriad hwn sydd wedi ei dargedu.

6.2 Defnyddir canlyniadau asesiadau cynllunio cynhwysfawr Cam 2A i bennu pwy yw'r ymgynghorai allanol perthnasol ar gyfer pob safle. Manylir ar yr ymatebion sy'n dod i law mewn perthynas â'r ymchwiliadau pellach a'r ymgynghoriadau allanol, yng nghofnod y safle penodol yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a'r Asesiad.

6.3 Mae'r sefydliadau yr ymgynghorir â nhw yn cynnwys:
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Yr Awdurdod Glo
- Cadw
- National Grid (Western Power Distribution gynt)
- Ofcom
- Glandŵr Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cwmnïau Bysiau

- Gweinidogion Cymru (Isadran Cynllunio)
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)
- Wales and West Utilities
- Network Rail Infrastructure Ltd
- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent
- National Grid
- Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon
- ICOMOS (International Council on Monuments and Sites) UK

## 7. Methodoleg Cam 2D: Asesiad Hyfywedd Ariannol Manwl

7.1 Ffocws y Cam hwn yn yr Asesiad Safleoedd Ymgeisiol yw hyfywedd ariannol unigol safleoedd ymgeisiol at eu diben arfaethedig. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (2020) yn nodi ym mharagraff 3.30 *“er mwyn sicrhau’r cyfranogiad mwyaf posibl a bod pob cam o’r gwaith o baratoi’r cynllun mor effeithiol â phosibl, dylid darparu cymaint o dystiolaeth ag sy’n bosibl ar gam y safleoedd ymgeisiol, gan gynnwys asesiad hyfywedd ariannol. Mae hyn yn berthnasol i bob safle ymgeisiol.”*

7.2 Cyflwynir y gofyniad i Asesiad Hyfywedd Ariannol gydymffurfio â’r elfen hon o’r Asesiad Safleoedd Ymgeisiol yn y  Nodyn Canllaw Asesu Hyfywedd, sy’n ddogfen ar wahân (Mai 2023). I grynhoi, bydd gofyn cael asesiad hyfywedd Cam 1 sy’n cadarnhau’r egwyddor hyfywedd ariannol, wrth gyflwyno Safle Ymgeisiol yn gychwynnol. Yna bydd angen cyflwyno asesiad hyfywedd llawn (Model Hyfywedd Datblygiad) yn ystod yr Alwad am Wybodaeth Ychwanegol.

## 8. Methodoleg Cam 3: Asesu yn erbyn Strategaeth y CDLlN

8.1 Mae Cam 3 yn y broses o Asesu Safleoedd Ymgeisiol yn ystyried addasrwydd pob safle sy’n weddill mewn perthynas â strategaethau tyfu a gofodol y Cyngor fel y profwyd yn y Strategaeth a Ffefrir ac fel y nodir yn y CDLlN Adneuol. Bydd y cam hwn hefyd yn ystyried adolygiad o safleoedd yn erbyn Amcanion Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwent (Mai 2022), Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cyngor a chasgliadau’r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig.

## 9. Canlyniadau’r Asesiad Safleoedd Ymgeisiol

9.1 Bydd dogfennau’r Asesiad Safleoedd Ymgeisiol yn cael eu huno gyda’r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a’u llunio fel cofnod sy’n seiliedig ar safle, fel bod yr holl wybodaeth sy’n ymwneud â safle unigol yn cael ei chadw mewn un lleoliad yn hytrach na chyfeirio at sawl dogfen. Pan fydd gan safle sawl cofnod oherwydd cynigion gwahanol, bydd mynegeio’r rhain yn sicrhau bod modd dod o hyd i bob cofnod perthnasol a’u croesgyfeirio.

9.2 Bydd yr asesiad llawn ar gyfer pob safle yn cynnwys Tudalen o Grynodeb, Cynllun Lleoliad y Safle, Lluniau sy’n Cynrychioli’r Safle, Asesiad Cam 1, Asesiad Cam 2A (os yn berthnasol), Sylwadau o’r Ymgynghoriad Cyn Adneuo (lle bônt wedi cael eu cyflwyno) ac Ymateb y Cyngor, Asesiad Cam 2C (os yn berthnasol), Asesiad Cam 2D (os yn berthnasol), Asesiad Cam 3 (os yn berthnasol) gyda chyfeiriad at Ganllawiau Cynllunio Atodol Fframwaith / Uwchgynllunio Cysyniad os yn berthnasol a Sylwadau o’r Ymgynghoriad ar y ddogfen wedi’i Hadneuo (lle bônt wedi cael eu cyflwyno) ac Ymateb y Cyngor.

9.3 Cyhoeddir Asesiad Cam 2B (Themâu ac Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig) ar wahân yn rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig y CDLlN.